# YR ATEBION

Annwyl **rieni**,

Hoffai pawb yn yr ysgol **dd**iolch am eich cefnogaeth **werthfawr** i'r ymgyrch i godi arian i brynu bws mini dros y flwyddyn neu **ddwy** ddiwethaf. Bu pawb wrthi'n **frwdfrydig** iawn.

Mae'n braf iawn **gallu** rhoi gwybod **ein bod** ni wedi cyrraedd y nod erbyn **hyn**. Felly **byddwn** yn mynd ati cyn hir i **br**ynu bws mini a **fydd** yn addas i'n gofynion. Gyda lwc, bydd wedi'i **brynu** erbyn i ddisgyblion Blwyddyn 5 **fynd** ar **eu** taith flynyddol i Blas Clogwyn. **O ganlyniad** bydd y costau teithio'n **is** nag arfer **eleni**.

Nid yw'r ysgol **erioed** wedi bod yn berchen ar fws mini, felly mae **hwn** yn gyfnod cyffrous. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr **at** gael y bws er mwyn gallu cynnig **mwy** o brofiadau allgyrsiol i'r disgyblion.

Diolch yn fawr eto am **bob** cymorth.

Yn gywir,

Megan Pritchard (Pennaeth)

= hanner marc

= 1 marc

# Y Mathau gwahanol o wallau

- Ansoddeiriau
- Sillafu
- Cenedl enwau
- Y cymal enwol
- Berfau- rhedeg y berfau
- Arddodiaid
- Rhagenwau ei / eu
- Treiglo'r gwrthrych

# Adolygu ac ymarfer : Sglein ar lein



# Adolygu ac ymarfer : Sglein ar lein

- Ansoddeiriau – 6,
- Sillafu – 5, 10,
- Cenedl enwau- 1, 5, 8, 17
- Y cymal enwol- 1
- Berfau- rhedeg y berfau- 6, 1, 3, 2, 16, 19
- Arddodiaid- 1, 3, 6, 10, 17,
- Rhagenwau ei / eu- 5, 8, 13, 17
- Treiglo'r gwrthrych- 17

# Adolygu ac ymarfer :Cywirdeb iaith

